

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG
(ARAC) FESTIVAL 2022 LTD TRWY GYNHADLEDD FIDEO DYDD MERCHER 03
AWST 2022, 14:00 – 15:15**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU")

Yn bresennol:

Faraz Tasnim (FT)	Cadeirydd ARAC, Cyfarwyddwr Anweithredol
Amali de Alwis MBE (AdA)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Roger Lewis (RL)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon

Yn arsylwi:

Greg Wilson (GW)	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Daniel Coles (DC)	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")
Adam Richards (AR)	PwC
Alison Breadon (AB)	PwC

Hefyd yn bresennol:

Phil Batty (PB)	Cyfarwyddwr Gweithredol
Caroline McGrory (CMcG)	Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni
David Grady (DG)	Prif Swyddog Ariannol
Sarah Tromans (ST)	Cyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol a Rheoli Contractau
Jack Spooner (JS)	Uwch Reolwr Cyllid
John Darnbrook (JB)	Pennaeth Integreiddio Busnes
Ruth Marshall (RM)	Pennaeth PMO a Sicrwydd
Lucy Bailey (LB)	Cyfarwyddwr Prosiect
Laura O'Donnell (LO'D)	Rheolwr Prosiect Cynorthwyol
Laura O'Flynn (LO'F)	Rheolwr Llywodraethu (Cofnodwr)

32/22 Croeso a diben y cyfarfod

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Sonia Coates sy'n gadael y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr wythnos hon a diolchwn i SC am ei hymdrechion yn cefnogi ARAC. Croesawodd y Cadeirydd Ruth Marshall yn ei swydd newydd yn Bennaeth PMO a Sicrwydd.

33/22 Cymeradwyo'r cofnodion a materion yn codi

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion yn codi ac aeth trwy'r camau gweithredu yn weddill a'u cau.

Gofynnodd AdA am gael yr wybodaeth ddiweddaraf mewn cysylltiad â chynaliadwyedd yn rheolaidd.

CAM GWEITHREDU: JD i drefnu cyfarfod diweddarau ynghylch cynaliadwyedd gyda AdA

Atgoffodd y Cadeirydd oherwydd i gyfarfod ARAC ar 09 Mehefin gael ei ganslo, trafodwyd busnes drwy ohebiaeth e-bost.

Mae'r nodyn ffurfiol yn cyfleu canlyniadau cyffredinol pecyn 9 Mehefin, ac mae'r cyfarfod hwn yn derbyn hwn yn ffurfiol fel cofnod cywir.

34/22 Diweddariad Gweithredol

Rhoddodd PB ddiweddariad ar benawdau corfforaethol allweddol gyda'r pwyslais ar y gwaith o ailstrwythuro'r gweithlu gorffenedig, gan nodi'n benodol y rhai a oedd yn bresennol a oedd yn cefnogi ARAC; mae Ruth Marshall bellach yn Bennaeth PMO a Sicrwydd ac yn adrodd ar risgiau, Laura O'Flynn yw Pennaeth Llywodraethu a Diddymu sy'n arwain ar drosglwyddo rheoli gwybodaeth mewn llinell amser systematig, mae John Darnbrook bellach yn Bennaeth Trawsnewid gan gefnogi blaenoriaethau ailstrwythuro a busnes strategol ac yn olaf mae Lucy Bailey wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol i ofalu am glwstwr 3 sy'n cynnwys SEE MONSTER, GALWAD a Dreamachine.

Mae Jack Spooner yn parhau fel Uwch Reolwr Cyllid ac yn cefnogi ar draws UNBOXED ac yn rheoli'r 10 comisiwn.

Mae recriwtio ehangach ar waith i gefnogi capasiti a chynllun ehangach y gweithlu.

Roedd yr ARAC yn falch o weld cynnydd mewn adnoddau a phrosesau yn cael eu symleiddio.

Aeth PB ymlaen i ddarparu diweddariad ar y materion strategol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyrhaeddiad cyffredinol y comisiynau byw, tirlun risg, buddsoddi mewn cyfathrebu marchnata i gyflawni 'Da i Wych' a gweithgaredd y rhaglen i'w chyflawni ym mis Medi sydd i gyd yn ymwneud ag optimeiddio cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gynulleidfa.

Ystyriodd AdA naratif cyfathrebu ar gyfer UNBOXED ac anogodd drafodaeth ar allbynnau cyffredinol y rhaglen o'u cymharu â'r rhagamcanion. Soniodd PB am waith presennol ar y gweill sy'n edrych ar ymgysylltu â'r gynulleidfa ar lefel fanwl iawn, gan gynnwys ymgysylltu corfforol, digidol byw, elfennau darlledu, dysgu a chyfranogi. Mae'r tîm yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yr wythnos nesaf o ran ffigurau ymgysylltu.

Roedd ARAC yn falch o glywed bod y gwaith hwn wedi'i adolygu ac y byddai'n aros am gyfarfod y Bwrdd yr wythnos nesaf. Cynhaliwyd trafodaeth ar weithgareddau diddymu a gwerthuso yn digwydd ochr yn ochr. Cadarnhaodd PB nad oes bwriad i gwblhau gwerthusiad 1 flwyddyn, byddai hwnnw'n benderfyniad i'r pedair Llywodraeth yn rhinwedd eu swyddi yn gyllidwyr.

Ail-bwysleisiodd LH ddifrifoldeb cynnal ymgysylltiad â'r gweithlu, roedd yn amlwg mai'r misoedd nesaf yw'r prysuraf a dylai ARAC gael sicrwydd o hyn. Roedd PB yn cytuno ei bod yn risg allweddol ac mae wedi cymryd camau lliniaru pan fo'n bosibl gyda mwy o recriwtio ac mae nifer o unigolion talentog wedi'u hadleoli i raglenni â blaenoriaeth, gan ddefnyddio all-leoli cydweithwyr yr OC, ac adleoli i ôl-lenwi. Roedd JD yn cefnogi ac yn credu bod cronfa'r OC yn adnodd euraidd; hysbysebwyd 13 swydd a chafwyd o leiaf 12 ymgeisydd ar gyfer pob swydd yn sgil mynd yn fewnol.

35/22 Diweddariad Adroddiad ar Dirlun Rheoli Risg Strategol a Phortffolio

Fframiodd PB y papur (a'i dderbyn heb ei ddarllen) gan amlinellu'r newidiadau i safle'r Portffolio Rheoli Risg.

36/22 Perfformiad Ariannol yn cynnwys Adolygiad o'r Gyllideb a Diweddariad ar yr Arian Wrth Gefn

Fframiodd JS y papur (a'i dderbyn heb ei ddarllen) a dywedodd bod y papur yn canolbwyntio ar arian wrth gefn sy'n cael ei reoli o fewn y comisiynau a'i gyfleu yn y cyfarfodydd rheoli misol a'r newidiadau drwy'r prosesau dirprwyo ariannol. Mae'r ffigur cyffredinol yn dda a bydd trefnu cyfarfod i ail-ragweld gyda DCMS yn cefnogi hyn. Wrth i'r comisiynau gau mae llawer o waith gweinyddu i'w gwblhau.

Cyfeiriodd JS at y tabl arian wrth gefn.

Yna, bu'r Pwyllgor yn trafod y strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli arian wrth gefn yn ystod camau olaf y rhaglen.

Nododd ARAC gynnwys y papur.

37/22 Diweddariad yr Archwiliad Mewnol

Fframiodd AR y papur (a'r dderbyn heb ei ddarllen). Dywedodd AR nad oedd unrhyw adolygiadau wedi digwydd ers papurau mis Mehefin a bod yr adolygiad rhyddhau wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Medi. Teimlwyd bod angen tynnu'r astudiaethau dwfn o'r adolygiad o ystyried y sicrwydd a ddarparwyd i'r Bwrdd a dileu adolygiad Cyfathrebu Marchnata oherwydd nad yw'r amserlenni bellach yn cynnig llawer o fanteision ac oherwydd yr angen i ddefnyddio'r adnodd mewn mannau eraill. Mae dau adolygiad wedi cael eu cymeradwyo: 1) proses cau comisiwn 2) prosesau casglu data 'allbwn' comisiwn.

PENDERFYNWYD BOD ARAC wedi cymeradwyo dileu CYFATHREBU MARCHNATA a'r adolygiadau astudiaethau dwfn y Prosiect a chymeradwyo ychwanegu'r broses cau Comisiynau a phrosesau casglu data 'allbwn' comisiwn. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld diddymu'n cael ei gynnwys o fewn yr adolygiad rhyddhau.

Gofynnodd y Pwyllgor am y camau sydd weddill a'r effaith ar adnodd ac ail-lenwi. Dywedodd PB mai ei gyfrifoldeb ef oedd y camau gweithredu i benderfynu ar y dyddiadau terfynol a sefydlu cyfarfod adolygu'r gweithlu yr wythnos nesaf.

38/22 Diweddariad ar Ddiddymu

Fframiodd LO'F y papur (a'i dderbyn heb ei ddarllen) a chyfeiriodd at y prif newidiadau; effeithiau ailstrwythuro, pryderon a chamau lliniaru arfaethedig gyda'r capasiti i arwain llif gwaith yr asedau, llif gwaith ychwanegol i ddal y gweithgaredd cau'r comisiwn o fewn y strwythur llywodraethu a chyfansoddiad y Bwrdd.

Gofynnodd y Cadeirydd am gynlluniau ynghylch sut i gadw pobl yn frwdfrydig yn ystod cyfnod prysur. Amlinellodd LO'F fod y gweithgor wedi aildanio a bwriedir defnyddio'r grŵp hwn o bobl i hyrwyddo pwysigrwydd diddymu a rhoi cefnogaeth i eraill. Hefyd, ymunwyd â phwyllgor llywio'r OC y mae ST yn ei gadeirio a defnyddio'r adnodd a'r gefnogaeth o'r fan hyn, er enghraifft sesiynau hyfforddi bychain mewn meysydd penodol i rannu gwybodaeth a dogfennau, pan fo modd. Mae'n gyfnod cynnar o hyd ond cafwyd ymgysylltu a chefnogaeth gadarnhaol gan y DCMS a chydweithwyr i symud ymlaen â gweithgaredd diddymu.

Gofynnodd y Cadeirydd am gael gweld y strwythur Llywodraethu. Cytunodd DG i rannu'r strwythurau gan y Pwyllgor Llywio a rhoi sicrwydd bod diddymu UNBOXED yn rhan drosfwaol o broses Diddymu'r OC. Atgoffodd LO'F bawb am sesiwn frifio'r

cyfarwyddwyr a drefnwyd gyda PwC yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi hefyd a fyddai'n cwmpasu'r rhwymedigaethau.

CAM GWEITHREDU: DG i anfon y dogfennau llywodraethol at Gadeirydd ARAC.

Roedd RL yn cefnogi presenoldeb cwmni PwC yng nghyfarfod y Bwrdd a gofynnodd am sicrwydd bod y Bwrdd yn ymgysylltu'n llawn a bod digon o amser ar gael i drafod.

Gofynnodd AdA am ddiweddariad ar yr asedau ar gyfer prosiectau a rhwymedigaethau UNBOXED. Ymatebodd PB gan ddweud bod perchnogaeth asedau wedi'i nodi yn y cytundeb comisiwn llawn. Crynhodd PB y sefyllfa hon ar gyfer ARAC.

Gofynnodd y Pwyllgor sut bydd UNBOXED wrth friffio'r Uwch Gynhyrchwyr yn paratoi'r comisiynau ar gyfer eu diddymu ac a ydym ni'n hollol agored â nhw. Sicrhaodd RM fod y strwythur yn ei le, ac wedi ei rannu gyda'r comisiynau. Ar hyn o bryd, mae'r broses yn cael ei threialu gydag About Us /59 Productions.

Nododd GW y gallai asedau fod angen cymeradwyaeth os ydynt yn cael eu rhoi yn rhodd neu'n cael eu gwaredu ar golled (ni waeth beth yw'r gwerth) yn unol â'r rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus.

Roedd y Pwyllgor yn falch o gael diweddariad a rhoddodd ei gefnogaeth lawn i'r gweithgaredd diddymu.

39/22 Unrhyw Fusnes Arall

Nodwyd nad oedd 'Unrhyw Fusnes Arall'.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 15:15. Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf yw 5 Hydref, yn rhithwir.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:
Cyfarwyddwyr ARAC
Arsylwyr ARAC
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd: 13 Medi 2022
Dyddiad dychwelwyd at y Gweinyddwr: 14 Medi 2022
Dyddiad dosbarthu: 5 Hydref 2022